# Cynllun Gweithredu Tîm 2023/2024

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| W01.1 | Mabwysiadu strategaeth ddigidol newydd, gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu a datblygu gwasanaethau ar-lein mwy ymatebol, gan gynnwys gwelliannau ar gyfer gwasanaethau tai a'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid a gwelliannau i'r wefan. | Gwella ac adolygu ein cynnig digidol a'n gwasanaethau ar-lein. | • Parhau i gynnig digwyddiadau neu weithgareddau achlysurol ar-lein a pharhau i ddatblygu'r podlediad llyfrgell.<br>• Ymchwilio i'r opsiwn o argraffu Wi-Fi.<br>• Disodli'r ciosgau hunan-gyhoeddi presennol gyda chiosgau newydd yn llyfrgelloedd y cyngor.<br>• Darparu opsiwn talu â cherdyn yn llyfrgelloedd y cyngor a galluogi taliadau ar-lein ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau.<br>• Ystyried ymestyn Hybiau i Lyfrgelloedd y Bont-faen a Llanilltud Fawr i roi mynediad mwy hyblyg i ddefnyddwyr at gynnwys digidol.<br>Ffrâm amser: 1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **Tîm Rheoli Llyfrgelloedd** |
| W01.2 | Gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau drwy adolygu ystâd y cyngor gan gynnwys swyddfeydd a safleoedd allweddol. | Archwilio'r cyfleoedd i gynyddu cynhyrchiant incwm drwy godi tâl am logi ystafelloedd a lleoliadau i unigolion / sefydliadau masnachol neu breifat. | **Canlyniadau:**<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau masnachol a phreifat, gan ddefnyddio'r ystâd llyfrgelloedd i gynyddu incwm.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Nodi partneriaid sy'n dymuno llogi ein hystafelloedd a'n lleoliadau.<br>• Hyrwyddo'r cyfleuster llogi ystafelloedd a lleoliadau.<br>• Ail-ffurfweddu ystafell TG y Bont-faen i greu gofod mwy hyblyg. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO1.2 | Adolygu hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ymateb i heriau ariannol ac ansicrwydd sylweddol parhaus. | Nodi a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio cyllid grant i gyflawni buddion byrdymor byr ac fel rhan o ddull tymor hwy o fynd i'r afael â heriau adnoddau. | **Canlyniadau:**<br><br>Nodi a gwneud ceisiadau llwyddiannus am y grantiau sydd ar gael.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Rheolwyr Llyfrgell i archwilio a nodi cyfleoedd grant drwy'r cyngor, rhwydwaith SCL a dulliau eraill.<br>• Gwneud ceisiadau llwyddiannus am unrhyw grantiau mewnol ac allanol<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |
| WO 1.4 | Diwygio ein harferion caffael i sicrhau gwerth am arian i sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at yr economi leol, cefnogi gwaith sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a sicrhau manteision cymunedol. | Adolygu ein harferion caffael i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at yr agenda newid hinsawdd a'r angen i leihau carbon. | **Canlyniadau:**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu'n llawn at yr agenda newid hinsawdd a'r angen i leihau carbon.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Dechrau trafodaeth am ein harferion caffael.<br>• Nodi arferion y gellir eu gwella.<br>• Creu cynllun ar gyfer arferion caffael gwell. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Prynu llyfrau ac adnoddau newydd ym mhob fformat am y gwerth gorau drwy Gonsortiwm Prynu Cymru Gyfan<br>• Cefnogi'n weithredol y broses o gaffael system rheoli llyfrgelloedd newydd a rennir a llwyfan digidol i Gymru (LMS Cymru) drwy ddull consortiwm gyda phob awdurdod arall yn Llyfrgell Gyhoeddus Cymru.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO 4.1 | Gweithredu Prosiect Sero, ein Cynllun Her Newid Hinsawdd a gweithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill i leihau allyriadau carbon, gan ganolbwyntio gwaith ar ddefnydd ynni, trafnidiaeth, tir a bwyd, a sicrhau bod ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn rhan annatod o bob penderfyniad. | Llyfrgelloedd i gyfrannu at Brosiect Sero a'r Cynllun Her Newid Hinsawdd. | **Canlyniadau:**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu'n llawn at yr agenda newid hinsawdd a'r angen i leihau carbon.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Dyblygu'r Prosiect Microgreens llwyddiannus yn y llyfrgelloedd eraill.<br>• Ystyried ac adolygu'r defnydd o'r cwrt yn Llyfrgell y Barri a datblygu cynllun gyda phartneriaid sy'n dod â bioamrywiaeth a lle i oedolion a phlant ei fwynhau.<br>• Gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau y caiff materion gwyrdd | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ehangach eu hyrwyddo drwy adnoddau, sgyrsiau ac arddangosfeydd.<br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO 1.6 | Gweithredu Strategaeth Pobl newydd<br><br>gan ganolbwyntio'n benodol ar wella amrywiaeth ar draws y gweithlu, recriwtio a chadw, cynllunio i'r dyfodol a lles staff. | Hyrwyddo'r cynnig llyfrgell i staff eraill y cyngor gyda phwyslais ar les staff. | **Canlyniadau:**<br><br>Gweithlu'r cyngor yn cael gwybod am y cynnig llyfrgell ac yn manteisio arno:<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Nodi meysydd gwasanaeth i'w hyrwyddo i staff eraill y cyngor.<br>• Hyrwyddo llyfrgelloedd yn well ar y fewnrwyd staff.<br>• Archwilio ffyrdd o estyn allan ymhellach at staff y cyngor.<br>• Archwilio gweithgareddau a phartneriaethau lles.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |
| WO 1.1 | Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ddarparu a siapio gwasanaethau | Llyfrgelloedd i barhau i gynnig lleoedd gwirfoddol ac i weithio ar y cyd â | **Canlyniadau:**<br><br>Parhau i recriwtio gwirfoddolwyr a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | lleol, annog pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau lleol a'u cefnogi i geisio cyllid. | gwasanaethau gwirfoddol eraill i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y gymuned. | **Cerrig Milltir:**<br><br>• Recriwtio mwy o wirfoddolwyr i brosiectau caeth i'r cartref, digideiddio a Hyrwyddwyr Digidol.<br>• Datblygu rhaglen hyfforddiant gloywi ar sgiliau digidol a phrosesau llyfrgell ar gyfer gwirfoddolwyr.<br>• Cynnal digwyddiadau gyda sefydliadau partner eraill e.e. stondinau gwybodaeth GGM.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO 1.2 | Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat i helpu i ddarparu arloesedd gwasanaethau a ffynonellau buddsoddi ac arbenigedd newydd. | Nodi partneriaid yn y sector preifat i helpu i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned. | **Canlyniad:**<br><br>Nodi partneriaid yn y sector preifat a all helpu i gyflawni ein nod o gefnogi'r gymuned leol:<br><br>**Cerrig Milltir**<br><br>Nodi partneriaid yn y sector preifat i gydweithio â nhw e.e. Banc Barclays, Babis BACH Babies a Tiny Toes Ballet.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| WO1.1<br><br>WO1.4 | Cyflwyno ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i annog a galluogi mwy o gyfranogiad i breswylwyr a<br><br>rhanddeiliaid eraill wrth wneud penderfyniadau,<br><br>gyda ffocws penodol ar wella ymgysylltiad â phobl nad ydym yn clywed ganddynt yn aml. | Cynnal arolwg oedolion i alluogi mwy o gyfranogiad gan drigolion i wella'r gwasanaeth llyfrgell. | **Canlyniad:**<br><br>Cael barn y cyhoedd ehangach am ffyrdd o wella'r gwasanaeth llyfrgell i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Creu arolwg ar gyfer oedolion yn unol â chanllawiau MALD.<br>• Archwilio gwahanol ffyrdd o sicrhau bod gan oedolion fynediad i'r arolwg.<br>• Cynnal yr arolwg.<br>• Dadansoddi'r arolwg.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |
| WO 1.5 | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). | Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy adnoddau, gweithgareddau, digwyddiadau a pharhau i annog staff i fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg. | **Canlyniad:**<br><br>Parhau i sicrhau bod deunydd Cymraeg ar gael yn unol â'r SLlCC. Annog digwyddiadau Cymraeg yn y llyfrgelloedd.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Prynu deunydd Cymraeg.<br>• Cynnal a threfnu digwyddiadau Cymraeg mewn llyfrgelloedd.<br>• Prynu mwy o lyfrau llafar, llyfrau print mawr ac e-lyfrau Cymraeg. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO3.1 | Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu chwarae a chwaraeon, hamdden, a gwasanaethau celfyddydau a diwylliannol gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd a lles a meysydd lle cafwyd cyfraddau cyfranogiad isel yn y gorffennol. | Dod â phobl a chymunedau at ei gilydd ac annog cyfranogiad. | **Canlyniadau:**<br><br>Mwy o gyfleoedd i hwyluso gweithgareddau cynhwysol.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Parhau i gynnal boreau coffi ac ystod o sesiynau galw heibio anffurfiol.<br>• Cefnogi a hyrwyddo grwpiau Gwau a Sgwrsio, grwpiau darllen, amser odli, amser stori, a grwpiau cymdeithasol eraill ar gyfer oedolion a phlant.<br>• Cynnal man cynnes yn ystod y gaeaf.<br>• Cynnal rhaglen o weithgareddau am ddim neu fforddiadwy i blant a theuluoedd yn ystod gwyliau'r haf.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |
| WO3.3 | Parhau i ehangu'r cynnig gan ein llyfrgelloedd yn | Parhau i ehangu'r cynnig gan ein llyfrgelloedd yn eu rôl fel hybiau o fewn y gymuned. | **Canlyniad:**<br><br>Gwasanaeth llyfrgell amrywiol sy'n gwella ein rôl fel hyb yn y gymuned. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | eu rôl fel hybiau o fewn y gymuned. | | **Cerrig Milltir:**<br>• Nodi ffyrdd o gynnig gwasanaeth llyfrgell sydd hyd yn oed yn fwy amrywiol yn unol â hynny.<br>• Darparu gwasanaeth llyfrgell mwy amrywiol.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |
| WO 3.8 | Cyflawni blaenoriaethau'r<br><br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a'u hecsploetio. | Parhau i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn gweithredu ar ei gyfrifoldebau diogelu. | **Canlyniad:**<br><br>Mae'r holl staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu trwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau.<br><br>Cerrig Milltir:<br><br>Staff yn parhau i gael hyfforddiant a sesiynau gloywi ym mhob agwedd ar ddiogelu.<br><br>Yn parhau | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| WO 4.1 | Cefnogi niferoedd cynyddol ac amrywiaeth well o bobl ifanc i fanteisio ar ystod ehangach o gyfleoedd cyfranogiad i alluogi tegwch ac amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor. | Llyfrgelloedd i gynnig mwy o amrywiaeth i bobl ifanc. | Gwasanaeth llyfrgell amrywiol sy'n gwella ein rôl fel hyb i bobl ifanc.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Nodi ffyrdd o gynnig gwasanaeth llyfrgell sydd hyd yn oed yn fwy amrywiol i bobl ifanc.<br>• Darparu gwasanaeth llyfrgell mwy amrywiol i bobl ifanc.<br><br>1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | **TRhLl** |
| | Cyflawni blwyddyn pedwar <u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</u>, y Cyngor, sicrhau statws <u>Dinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn</u> i'r Fro a bwrw ymlaen â gwaith yn rhan o'r gweithredu cenedlaethol ar anabledd, hil a chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. | Llyfrgelloedd i barhau i gefnogi a chynnal gweithgareddau i bobl hŷn ac i gynnig man cynnes yn y gaeaf. | **Canlyniadau:**<br><br>Cefnogi'r cyngor yn ei nod i sicrhau statws Dinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>• Parhau i gynnal boreau coffi ac ystod o sesiynau galw heibio anffurfiol ar gyfer pobl hŷn.<br>• Cefnogi a hyrwyddo grwpiau Gwau a Sgwrsio, grwpiau darllen, a grwpiau cymdeithasol eraill ar gyfer pobl hŷn.<br>• Cynnal man cynnes yn ystod y gaeaf.<br>• Hyrwyddo ein gwasanaeth caeth i'r cartref. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Hyrwyddo ein gwasanaethau i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio. | |
| WO 3.1 | Gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu chwarae a chwaraeon, hamdden, a gwasanaethau celfyddydau a diwylliannol gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, hyrwyddo iechyd a lles a meysydd lle cafwyd cyfraddau cyfranogiad isel yn y gorffennol. | Datblygu gweithgareddau Gofod Gwneud yn Llyfrgelloedd y Barri a Phenarth. | **Canlyniadau:**<br><br>Mwy o gyfleoedd i hwyluso gweithgareddau cynhwysol.<br><br>**Cerrig Milltir:**<br><br>Trwy'r Swyddog Gofod Gwneud, datblygu rhaglen o weithgareddau dysgu a grëwyd yn y llyfrgell ar gyfer oedolion, pobl ifanc a phlant, gyda rhai ohonynt am ddim.<br><br>Cydweithio â Dysgu Oedolion yn y Gymuned a phartneriaid a sefydliadau eraill i gynnal ystod o weithgareddau i ddysgwyr yn y Gofod Gwneud i gyflwyno ac ehangu sgiliau newydd.<br><br>Darparu cyfleoedd i ddefnyddwyr unigol weithio yn y Gofod Gwneud i ddilyn eu diddordebau eu hunain, boed yn ddigidol, crefft neu gerddoriaeth.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i gefnogi defnyddwyr yn ddigidol. | **TRhLl** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Mehefin 2023 31 Mawrth 2024 | |